

Canllawiau Coronafeirws (COVID-19)

GORCHUDDION WYNEB

CYFEIRNOD	FERSIWN	DYDD.
	3	16/09/2020

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol a moesol o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 drwy gydol y pandemig COVID-19.

Mae gorchuddion wyneb wedi dod yn orfodol yng Nghymru ym mhob man dan do cyhoeddus i weithwyr a chwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth o 14 Medi 2020 ymlaen, oni bai eu bod wedi'u heithrio neu fod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo un.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r negeseuon perthnasol a'r arferion gorau o ran gorchuddion wyneb er mwyn sicrhau diogelwch yr holl weithwyr a chwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth.

Pa rai o wasanaethau Cyngor Sir Caerfyrddin y mae angen iddynt weithredu'r canllawiau ar wisgo gorchuddion wyneb?

Bydd yn ofynnol i staff yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â'r cyhoedd wyneb yn wyneb a ddarperir mewn mannau dan do wisgo gorchuddion wyneb fel gofyniad cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canolfannau Hwb.
- Marchnadoedd.
- Derbynfeydd mewn adeiladau cyhoeddus.
- Cyfleusterau hamdden.
- Llyfrgelloedd.
- Amgueddfeydd.
- Unrhyw fan lle mae'r cyhoedd yn mynd i mewn i adeiladau'r Cyngor ac ati.

Hefyd, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei gwneud yn orfodol gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau dan do nad ydynt yn rhai cyhoeddus os na ellir cadw pellter cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Drefn Reoli Arian/Aur i gludo mwy nag un unigolyn.
- Ymweliadau y tu mewn i safleoedd domestig lle mae deiliaid tai yn bresennol.
- Mannau cyhoeddus sydd ar gau ond gallai'r cyhoedd gael mynediad iddynt e.e. cyfleusterau cyhoeddus sydd ar gau ar gyfer glanhau neu arolygu/cynnal a chadw.

Bydd y mannau gorfodol ychwanegol hyn yn cael eu nodi drwy asesiadau risg y gwasanaeth, gan ymgynghori â rheolwyr gwasanaeth ac iechyd a diogelwch.

Cadw pellter cymdeithasol a hylendid

NID yw defnyddio gorchuddion wyneb ym mhob man cyhoeddus dan do yn dileu'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr lle bynnag y bo modd na'n dileu'r gofyniad am safonau

hylendid uchel, gan mai'r rhain yw'r dulliau mwyaf effeithiol o hyd o atal coronafeirws rhag lledaenu.

Defnydd diogel o orchuddion wyneb yn y gweithle

Mae angen sawl cam i sicrhau bod gorchuddion wyneb yn cael eu defnyddio'n ddiogel tra byddwch yn y gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwisgo gorchuddion wyneb tair haen, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd.
- Golchi dwylo cyn gwisgo ac ar ôl tynnu gorchuddion wyneb.
- Sicrhau bod y gorchudd wyneb yn cael ei wisgo'n gywir dros y trwyn A'R geg.
- Peidio â chyffwrdd blaen y gorchudd wyneb tra'i fod yn cael ei wisgo.
- Dim ond trin strapiau'r gorchudd wyneb wrth ei wisgo neu ei dynnu.
- Storio gorchudd wyneb y gellir ei aildefnyddio yn gywir hyd nes y gellir ei olchi.
- Gwaredu gorchuddion wyneb untro yn briodol.

Eitem bersonol yw gorchudd wyneb ac ni ddylid ei rannu ag unrhyw un arall. Rhaid glanhau unrhyw fannau y gallai'r gorchudd wyneb fod wedi cyffwrdd â nhw, e.e. y ddesg, a dylid parhau i olchi dwylo'n aml drwy gydol y diwrnod gwaith am o leiaf 20 eiliad gan ddefnyddio sebon a dŵr neu hylif diheintio dwylo nes bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael.

Eithriadau ac Esgusodion Rhesymol sy'n berthnasol i weithwyr neu gwsmeriaid nad ydynt yn gwisgo gorchudd wyneb

Dyma'r eithriadau a ddiffinnir yn y gyfraith sy'n dileu'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb:

- Plant dan 11 oed.
- Lle mae bwyd a diod yn cael eu gwerthu neu'u darparu, a'u bwyta neu'u hyfed ar y safle.

Hefyd, mae esgusodion rhesymol, a ddiffinnir yn y gyfraith, dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, sef:

- Nid yw'r defnyddiwr yn gallu gwisgo gorchudd wyneb oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, neu oherwydd anabledd neu nam.
- Rhaid i'r defnyddiwr dynnu'r gorchudd wyneb i gyfathrebu â pherson arall sy'n cael anhawster cyfathrebu (drwy leferydd, iaith neu fel arall).
- Mae'r defnyddiwr yn dianc rhag bygythiad neu berygl ac nid oes ganddo orchudd wyneb.

Gallai rhai enghreifftiau o esgusodion rhesymol gynnwys:

- Unigolyn ag anableddau dysgu cymhleth.
- Aelod o staff neu gwsmer / defnyddiwr gwasanaeth sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau i gyfathrebu yn ystod ei ymweliad.
- Dioddefwr traïs domestig.

Gall fod adegau pan fydd esgusodion rhesymol dros dynnu gorchuddion wyneb dros dro. Gall y canlynol fod yn esgus rhesymol dros hyn:

- Mae angen i'r defnyddiwr gymryd meddyginiaethau.
- Mae angen i'r defnyddiwr fwyta neu yfed; neu
- Mae angen i'r defnyddiwr dynnu gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, naill ai iddo ef ei hun neu i eraill – er enghraifft i gael sylw rhywun am berygl.

Gallai enghreifftiau o esgusodion rhesymol dros dynnu gorchudd wyneb dros dro gynnwys y canlynol:

- Os oes gan unigolyn gyflwr meddygol fel diabetes a bod angen iddo fwyta neu yfed i gynnal ei iechyd.
- Os yw'r tymheredd yn ormodol ac, er mwyn cynnal iechyd, mae angen mynediad rheolaidd at ddŵr.
- Pan fo'n ofynnol i unigolyn dynnu'r gorchudd wyneb at ddibenion adnabod, e.e. tynnu llun ar gyfer bathodyn glas.
- Os byddai ymarfer corff yn achosi mwy o risg i'r defnyddiwr pe byddai'n parhau i wisgo gorchudd wyneb.

Bydd pob achos o esgus rhesymol yn amrywio, gan ddibynnu ar yr unigolyn a'r amgylchiadau. Os yw gorchudd wyneb i gael ei dynnu dros dro, rhaid i fesurau eraill fod ar waith i atal coronafeirws rhag lledaenu i'r rhai sy'n bresennol, e.e. sgriniau neu rwystrau ffisegol.

Os bydd gweithwyr sydd heb eithriad neu esgus rhesymol yn ymddwyn yn afresymol drwy wrthod gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau lle mae'n orfodol gwneud hynny, byddant yn cael eu riportio i'r Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth a gallent fod yn destun camau disgyblu.

Canfod a yw unigolyn wedi'i eithrio neu a oes ganddo esgus rhesymol

Ni fydd rhai eithriadau neu esgusodion rhesymol yn amlwg. Efallai y bydd angen ymholiadau pellach i'w canfod. Dylid gwneud hyn gydag urddas a pharch a fesul achos, gan gadw cyfrinachedd.

Os yw gweithiwr yn credu ei fod wedi'i eithrio neu fod ganddo esgus rhesymol, dylai drafod hyn gyda'i reolwr llinell a fydd yn gallu sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith sy'n briodol ar gyfer ei amgylchiadau unigol.

Os yw cwsmer neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn credu ei fod wedi'i eithrio, dylai hysbysu'r gwasanaeth y mae'n ei ddefnyddio ac mae canllawiau'r Llywodraeth yn argymhell ei fod yn cario gwybodaeth i gefnogi ei amgylchiadau unigol. Mae rhai sefydliadau iechyd neu anabledd (fel Hidden Disabilities, MIND ac ati) wedi creu cardiau neu fathodynau eithrio y gellir cyfeirio'r defnyddwyr atynt os ydynt yn teimlo eu bod yn briodol, e.e. gweithredwyr trafniadau, grwpiau anabledd ac ati.

Os oes gan unigolyn bryderon ynghylch gwisgo gorchudd wyneb a allai effeithio ar ei gyflwr meddygol, dylai ofyn am gyngor gan ei feddyg teulu neu ymarferydd meddygol.

Dylai gweithwyr sicrhau bod y cwsmer / defnyddiwr gwasanaeth yn cael cyfle i roi gwybod i'r gwasanaeth am ei reswm dros gael ei eithrio neu am ei esgus rhesymol, a chyfle i ddarparu gwybodaeth / dogfennau i gefnogi ei eithriad neu esgus rhesymol.

Gorfodi'r ddeddfwriaeth

Dylai Cyngor Sir Caerfyrddin wneud pob ymdrech resymol i atal diffyg cydymffurfiaeth, a gallai hynny gynnwys peidio â chaniatáu mynediad at wasanaethau os yw defnyddiwr sydd heb eithriad neu esgus rhesymol yn gwrthod cydymffurfio.

Nid yw gweithwyr yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith. Cyfrifoldeb asiantaethau gorfodi perthnasol, gan gynnwys yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a swyddogion iechyd yr amgylchedd, fydd gorfodi'r gyfraith.

Efallai y bydd angen i'r heddlu fynychu unrhyw ymddygiad treisgar neu ymosodol (gan gynnwys gwrthod cydymffurfio) ac efallai y bydd angen rhoi gwybod am y digwyddiad gan ddilyn system rhoi gwybod am ddamweiniau / digwyddiadau'r awdurdod, drwy'r [System Ddamweiniau / Digwyddiadau](#)

Cyflenwadau gorchuddion wyneb

Dylai gweithwyr drafod y cyflenwad o orchuddion wyneb gyda'u rheolwr llinell a all eu harchebu o'r Storfa Gyffredinol Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).

Mesurau Ychwanegol sy'n benodol i Ysgolion a Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar

Bydd penaethiaid a rheolwyr yn penderfynu a yw disgybl wedi'i eithrio rhag unrhyw ofyniad i wisgo gorchudd wyneb. Gellir cysylltu â Nyrsys Iechyd Cymunedol Ysgolion am gyngor.

Bydd gorchuddion wyneb y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion a staff gan y Storfa Gyffredinol PPE. Gall unrhyw ysgolion nad ydynt wedi derbyn eu cyflenwadau gysylltu â'r [Storfa Gyffredinol PPE](#).

Mae'n ofynnol i'r holl staff mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd wisgo gorchudd wyneb ym mhob man cymunedol, gan gynnwys coridorau, neuaddau, ceginau, ystafelloedd bwyta, ystafelloedd cyfarfod a derbynfeydd.

Mae'n ofynnol i bob disgybl mewn Ysgolion Uwchradd wisgo gorchudd wyneb ar gludiant i'r ysgol ac ym mhob man cymunedol, gan gynnwys coridorau, neuaddau, ceginau, ystafelloedd bwyta, ystafelloedd cyfarfod a derbynfeydd.

Gellir cynnwys rhagor o wybodaeth neu ofynion mewn asesiad risg sy'n benodol i'r ysgol.

Cyngor, Arweiniad a Chymorth Pellach

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi canllawiau ar ddefnyddio gorchuddion wyneb i'r cyhoedd a gellir eu gweld drwy ei gwefan: <https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-canllawiau-ir-cyhoedd>.

Mae cyngor ac arweiniad arall ar gael gan Sefydliad Iechyd y Byd drwy fynd i'w wefan: <https://www.who.int/emergencies/diseases/novel-coronavirus-2019/advice-forpublic/whenand-how-to-use-masks>

Os oes gan weithiwr gwestiwn neu bryder, dylai siarad â'i reolwr llinell a fydd yn gallu cael gafael ar gymorth a chyngor gan wasanaethau mewnol, fel y tîm rheoli heintiau, iechyd a diogelwch neu uwch-reolwyr.